UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

DATGANIAD I'R WASG / PRESS RELEASE (English version follows)

21 Hydref / October 2009

Ariannu ysgolion Cymru - UCAC yn croesawu adroddiad

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn croesawu adroddiad ac argymhellion Pwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol ar Ariannu Ysgolion.

Yn ôl yr adroddiad, mae angen mwy o "eglurder, tryloywder ac atebolrwydd" yn y system ariannu ysgolion, a hynny o ran sut caiff yr arian ei ddosbarthu gan Lywodraeth y Cynulliad i Awdurdodau Lleol, a sut mae Awdurdodau Lleol yn eu tro'n dosbarthu'r arian i ysgolion unigol.

"Anghysondeb sy'n nodweddu'r system ariannu bresennol," **meddai Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC**. "Mae'n amhosib rhagweld faint o arian bydd ysgol unigol yn derbyn, ac o ganlyniad, mae'n eithriadol o anodd i Bennaeth ysgol cynllunio'n effeithiol. Yn ogystal, mae hi bron yn amhosib herio penderfyniad ariannu sy'n ymddangos yn annheg."

Ymhlith ei argymhellion, mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gomisiynu adolygiad annibynnol o anghenion refeniw ysgolion, ac i werthuso effaith cael modelau gwahanol o ariannu addysg cyn-16 ac ôl-16 ar ddarpariaeth addysg 14-19.

"Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n gweithredu polisïau uchelgeisiol ar gyfer disgyblion 14-19 mlwydd oed a fydd yn cynyddu nifer y cyrsiau sydd ar gael i ddysgwyr, yn enwedig cyrsiau galwedigaethol," **meddai Elaine Edwards**. "Mae UCAC yn croesawu'n fawr galwad y Pwyllgor Menter a Dysgu i werthuso'r gwaith hwn, gan gynnwys lefelau ariannu."

"System ariannu glir a dibynadwy yw'r unig ffordd o gynnig sefydlogrwydd i ddysgwyr a staff fel ei gilydd," ychwanegodd.

DIWEDD

Nodiadau

- 'Trefniadau Ariannu Ysgolion: Ymchwiliad Dilynol', Pwyllgor Menter a Dysgu, Hydref 2009: http://www.cynulliadcymru.org/school_funding_-_new_cover_-_oct_09-final-e.pdf
- Mae UCAC yn cynrychioli athrawon, prifathrawon a darlithwyr ledled Cymru
- UCAC yw'r unig Undeb Athrawon â'i bencadlys yng Nghymru, ac yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg

Am fanylion pellach cysylltwch â:

Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol: 07787 573707 / Rebecca Williams, Swyddog Polisi: 07787 572180

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru | Ffôn: 01970 639950 | Ffacs: 01970 626765
ucac@athrawon.com www.athrawon.com

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

PRESS RELEASE

21 October

School Funding - UCAC welcomes report

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) has welcomed a report on School Funding in Wales, published by the National Assembly's Enterprise and Learning Committee.

The report calls for "greater clarity, transparency and accountability in the school funding system" both in the way funding is distributed from the Welsh Assembly Government to local authorities, and how local authorities in turn distribute their funding to individual schools.

"The current system is plagued by inconsistency," **said Elaine Edwards, UCAC's General Secretary.** "It's impossible to predict how much money a particular school will receive, which makes it extremely difficult for Head Teachers to plan effectively. It also makes it virtually impossible to challenge funding decisions which appear to be unfair."

Amongst its recommendations, the Committee calls on the Welsh Assembly Government to commission an independent review of schools' revenue, and to evaluate the impact of having two separate funding models for pre-16 and post-16 education on collaborative working for 14-19 education provision.

"The Government is rolling out ambitious policies for the 14-19 age range which will increase the number of courses available to youngsters, particularly vocational courses," **said Elaine Edwards**. "UCAC warmly welcomes the Committee's call for that work to be evaluated, taking into account funding levels."

"A transparent and reliable funding system is the only way to provide the stability that is so important to both learners and staff," she added.

ENDS

Notes

- 'Arrangements for School Funding: Follow-up Inquiry', Enterprise and Learning Committee, October 2009: http://www.assemblywales.org/school_funding_-_new_cover_-_oct_09-final-e.pdf
- UCAC represents teachers, head teachers and lecturers throughout Wales
- UCAC in the only teaching union with its headquarters in Wales, and working through the medium of Welsh

For further information, contact:

Elaine Edwards, General Secretary: 07787 573707 / Rebecca Williams, Policy Officer: 07787 572180

UCAC - Wales' own teachers' union | Phone: 01970 639950 | Fax: 01970 626765

ucac@athrawon.com www.athrawon.com